

## **Cyngor Cymuned Llanelian (244)**

Cofnodion cyfarfod nos Fawrth Mehefin 11, 2013 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol:	Helen Woodcock	Glenys Jones
	T Elfyn Hughes	Gordon Hayes
	Thomas D Jones	Helen Hughes
	Hefina Williams	David Gerrard
	Cyng. Will Hughes	Cyng. Aled Morris Jones

Ymddiheuriadau: Cyng. Richard Jones

### **1 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Derbyniwyd Cofnodion y cyfarfod yn gywir; Cynnig T Elfyn Hughes, Eilio Gordon Hayes.

### **2 Materion yn Codi**

2.1 Ethol Is-gadeirydd – penderfynnwyd gohurio ethol Is-gadeirydd nes y cyfarfod nesaf. Hefina Williams yn fodlon cadeirio yn absenoldeb Helen Woodcock.

2.2 Cyfarfodydd yr Is-bwyllgorau (dosbarthwyd gopi o'r nodiadau o'r cyfarfodydd hynnu i bawb oedd yn bresennol).

Cae Chwarae - Gofynnwyd i'r Clerc ofyn i Medwyn Owen a fuasai yn ail archwilio'r cae chwarae wedi i'r gwaith atgyweirio gymryd lle. CET

Mynwent – Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu ag Un Llais Cymru i weld beth yw hawliau'r Cyngor par y llechi oedd wedi eu dwyn o'r fynwent. Bydd gofyn i Richard Edwards dorri a gwenwyno'r coed sycamorwydden yn y gaeaf. CET

2.3 Blwch Ffon – dim newid i'r blwch BT er ei fod wedi ei adrodd yn ddiffygiol nifer o weithiau erbyn hyn. Y Clerc wedi holi John Owen (CSYM) sydd wedi datgan y buasai'n rhaid i'r Cyngor Sir edych ar roi ffon argyfwng yn y maes parcio petai y blwch ffon yn mynd. Y Clerc i gadarnhau hyn mewn ysgrifen cyn trafod ymhellach. CET

2.4 Cylchfan – Mae'r mater ar hyn o bryd yn nwylo'r adran briffyrdd. Y Cyng Aled Morris Jones a'r Cyng Will Hughes i ddilyn i fynu erbyn y cyfarfod nesaf.

### **3 Cyf-Ethol Aelodau**

Dim ond un person cafwyd yn datgan diddordeb yn y seddi gwag sef Dafydd Griffiths. Cytuno cyfethol Dafydd Griffiths i ymuno a'r Cyngor. Y Clerc i gysylltu a'r Swyddfa Etholiadol i weld pa gamau sydd angen ei gymryd i lenwi'r set ddiwethaf. Oes rhaid i unigolyn fyw yn ardal Llwyfo? CET

### **4 Archwiliad Allannol (Adroddiad Hacker Young)**

Yn dilyn yr archwiliad fewnol, mae'r dogfennau priodol wedi eu paratoi ar gyfer Hacker Young sef yr archwiliwyr allannol. Dosbarthwyd copiau o'r esboniadau o'r prif wahaniaethau yng ngwariant y Cyngor 2011/12 a 2012/13 i'r rheini oedd yn bresennol. Derbyniwyd y datganiadau a chymeradwywyd y ffurflenni swyddogol i Hacker young.

### **5 Cynllunio**

Mae un cais cynllunio wedi dod i law sef adroddiad gan gwmni Celtic Array ar eu astudiaeth ardal eang fel y drafodwyd yn eu cyflwyniad yng nghyfarrfod mis Mai. Teimlwyd nad oedd digon o wybodaeth ynglyn a'r prosiect yn ei gyfanrwydd i allu gwneud sylw ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r cynghorwyr sirol adrodd yn ol a rhannu cyn gymaint o wybodaeth ag oedd ar gael gan fod cryn diffyg gwybodaeth ar hyn o bryd.

### **6 Rhodd ymddeoliad Gwyn Roberts**

Penderfynnwyd y byddai pob aelod yn cyfrannu swm unigol a fyddai yn cael eu ddefnyddio i brynnu tocynnau Curry's fel bod modd i G Roberts brynnu camera digidol o'i ddewis ei hun. Mae peth arian wedi dod i law gan deulu Britannia (John Hughes a'i Fab) yn barod. Gofynnwyd bod unrhyw arian arall yn cael ei gyflwyno i'r Clerc presennol erbyn 21/6/2013. CET

Bydd gwahoddiad i G Roberts a'i wraig ddod i'r Neuadd Bentref yn dilyn ein cyfarfod nesaf 9/7/2013 am 7 o'r gloch (penderfynnwyd cynnal y cyfarfod am 6.30). Bydd gwahoddiad yn cael ei estyn i Glerc Rhosybol ac Amlwch a theulu Britannia yn ogystal ac ambell un arall oedd wedi cydweithio'n agos a G Roberts.

Bydd TD Jones am gyflwyno'r rhodd i G Roberts ar y noson, ac bydd paned a theisen wedi ei baratoi gan Hefina Williams, Glenys Jones a Helen Hughes.

## **7 Unrhyw Fater Arall**

- 7.1 Llygod Mawr – mae llygod mawr wedi eu gweld ym Mhen Dref ger y Swyddfa Bost. Mae gan CSYM yr haw li orfodi perchnogion eiddo gwag i ddatrys y math gwynion a/neu gwerthu yr eiddo. Penderfynnu ysgrifennu at y Cyngor id datgan pryder. CET
- 7.2 Lon Cerrig Man – cafwyd diweddariad ar yr ymchwiliad i or-yrru ar y lon. Mae'r cerbydau heddlu am fod yn bresennol yn fwy aml, ac mae ymchwiliad i farciau y lon yn parhau.
- 7.3 Gofynnwyd pwy oedd y gyfrifol am y Cof Golofn, gan fod prosiect ar y gweill i gofio can-mlynedd o ddechrau y rhyfel byd cyntaf (Awst 2014). Gofynnwyd i'r Clerc wneud ymholiadau ac adrodd yn ol i'r cyfarfod nesaf. Os nad oes 'perchenog' bydd y Cyngor Cymuned yn fodlon cymryd cyfrofoldeb. CET
- 7.4 Bainc ar y lon o Cae Ficer i Pengorffwysfa – ma'r fainc angen coed newydd, y Clerc i wneud ymholiadau i weld pwy sy'n gyfrifol. CET
- 7.5 Enterprise – Mae ebost wedi dod i law gan y cwmni trydan i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith fydd yn cymryd lle ym Mhenysarn dros y misoedd nesaf. Byddent yn newid ac atgyweirio y gwifrau trydan mwy neu la ii gyd gan eu bod wedi cyrraedd diwedd eu hoes ac nad ydynt o safon ddigonol bellach.
- 7.6 Cyfarfodydd Un Llais Cymru – Mae'r cyfarfod blynyddol lleol i gymryd lle yn Llangefni 19/6/2013, gyda'r cyfarfod cenedlaethol yn Llanelwedd 5/10/2013.
- 7.7 Cynghorwyr Sir – fe ddiolchodd Will Hughes ac Aled Morris Jones am y croeso a'r gefnogaeth yn ystod eu ymgyrch etholiadol, ac ategwyd y byddai'r tri aeolod sydd wedi eu ethol yn cydweithio dros yr ardal.

## **8 Dyddiadau y cyfarfodydd nesaf**

Bydd y cyfarfodydd nesaf fel y ganlyn –

- Cyngor Gorffennaf 9/7/2013
- Cyngor Medi 3/9/2013

Fe ddiolchodd y Cadeirydd i bawb am fod yn bresennol. Bu'r cyfarfod orffen am 8.0yh.

CET06/2013